# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 8 Mehefin 2020

Amser: 10.00 - 11.00

Gellir gwylio’r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6352

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau’r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AS<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS |
| Tystion: | Vaughan Gething AS, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Dylan Hughes, Llywodraeth Cymru<br>Helen Lentle, Llywodraeth Cymru<br>Neil Surman, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Sam Mason (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Cymru) 2020 – sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Cymru) 2020, fel y'u diwygiwyd.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(5)551 – Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 4.1 SL(5)550 – Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.2 SL(5)552 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.3 SL(5)554 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 5 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 5.1 SL(5)549 – Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ansolfedd a Llywodraethu Corfforaethol

Nododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ansolfedd a Llywodraethu Corfforaethol, ac y byddai'n cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Mehefin 2020.

## 7 Papur(au) i'w nodi

### 7.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – adroddiadau statudol

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 9 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 9.1 SL(5)531 – Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2020

Ar ôl trafod y Gorchymyn yn flaenorol yn y cyfarfodydd ar 4 Mai a 1 Mehefin 2020, trafododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwyntiau a godwyd yn ei adroddiad ar y Gorchymyn, a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i dynnu sylw at faterion yn ymwneud â hygyrchedd y gyfraith.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Diogelwch Tân – trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor a derbyniwyd yr adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Diogelwch Tân, yn ddarostyngedig i un mân ddiwygiad. Nododd y Pwyllgor y byddai'r adroddiad yn cael ei osod erbyn y dyddiad cau gofynnol, sef 18 Mehefin 2020.

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Masnach – trafod yr ohebiaeth â'r Gweinidog

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Masnach, a chytunodd y byddai'n trafod yr adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus)

Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) a chytunodd i drafod adroddiad drafft yn y cyfarfod nesaf.

## 13 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cyllid

Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Cyllid a chytunodd i drafod adroddiad drafft yn y cyfarfod nesaf.